YSGOL ABERCONWY

20.10.2021

Annwyl Riant/Ofalwr

**Noson Rhieni Blwyddyn 10 – Archebu Apwyntiadau Ar-lein**

Hoffwn eich gwahodd i fynychu Noson Rhieni Ar-lein Blwyddyn 10 ar **Dachwedd 2il, rhwng 4pm a 6pm**. Yn y cyfnod heriol hwn, nid ydym wedi gallu trefnu nosweithiau rhieni wyneb yn wyneb, felly er mwyn cadw cysylltiad â chi ar yr adeg hanfodol hon, rydym wedi trefnu digwyddiad 'rhithiol' trwy 'School Cloud' a fydd yn eich galluogi i archebu galwadau fideo 4 munud gydag athrawon eich plentyn rhwng yr amseroedd a nodir uchod.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno system archebu apwyntiadau ar-lein newydd sy'n sythweledol ac yn hawdd ei defnyddio. Mae'n caniatáu i chi ddewis eich amseroedd apwyntiad eich hun gydag athrawon a byddwch yn derbyn ebost yn cadarnhau eich apwyntiadau. Rydym yn hyderus y bydd hwn yn brofiad gwerth chweil i chi ac yn gyfle da i glywed am gynnydd eich plentyn, ond rydym yn croesawu unrhyw adborth.

Gellir gwneud apwyntiadau o hanner dydd Ddydd Mercher, Hydref 20fed hyd at Ddydd Mawrth, Tachwedd 2il am hanner dydd. Os hoffech wneud unrhyw newidiadau ar ôl y dyddiad hwn, os gwelwch yn dda cysylltwch â'r tîm bugeiliol.

Ewch i https://ysgolaberconwy.schoolcloud.co.uk i archebu'ch apwyntiadau. Mae canllaw byr ar sut i ychwanegu apwyntiadau wedi'i gynnwys gyda'r llythyr hwn, yn ogystal â chod ymddygiad, yr ydym yn gofyn yn barchus i chi ei ddarllen a'i ddilyn ar y noson.

Bydd angen y wybodaeth ganlynol arnoch i fewngofnodi:
Enw Cyntaf y Myfyriwr, Cyfenw'r Myfyriwr a'u Dyddiad Geni, yn ogystal â'ch manylion eich hun.

Rydym wedi postio amrywiaeth o wybodaeth ddefnyddiol i'ch helpu gyda'r system hon ar ein gwefan yma : https://www.aberconwy.conwy.sch.uk/events/parents-evenings, ond os oes angen unrhyw gymorth pellach arnoch, mae croeso i chi gysylltu.

Edrychwn ymlaen at eich gweld chi ar y noson!


Yn gywir iawn

Ian Gerrard
Pennaeth


MORFA DRIVE | +44 (0)1492 593243 | INFO@ABERCONWY.CONWY.SCH.UK
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

# Canllaw i Rieni ar gyfer Archebu Apwyntiadau


Porwch yn https://ysgolaberconwy.schoolcloud.co.uk/




## Cam 1: Mewngofnodi

Llenwch y manylion ar y dudalen ac yna cliciwch ar fotwm *Log In*.


Anfonir cadarnhad o'ch apwyntiadau i'r cyfeiriad ebost a ddarperir gennych.




## Cam 2: Dewis Noson Rhieni

Cliciwch ar y dyddiad yr ydych am ei archebu.


Methu gwneud pob un o'r dyddiadau a restrir? Cliciwch *I'm unable to attend*.




## Cam 3: Dewis Modd Archebu

Dewiswch *Automatic* os hoffech i'r system awgrymu'r amserlen apwyntiadau fyrraf posibl yn seiliedig ar yr amseroedd rydych chi ar gael i'w mynychu. I ddewis yr amseroedd i'w harchebu gyda phob athro, dewiswch *Manual*. Yna gwasgwch *Next*.


Rydym yn argymell dewis y modd archebu awtomatig wrth bori ar ddyfais symudol.




## Cam 4: Dewis Athrawon

Os dewisoch y modd archebu awtomatig, llusgwch y llithryddion ar ben y sgrin i nodi'r amser cynharaf a'r hwyraf y gallwch fynychu.

Dewiswch yr athrawon yr hoffech drefnu apwyntiadau gyda nhw. Mae tic gwyrdd yn nodi eu bod wedi'u dewis. I ddad-ddewis, cliciwch ar eu henw..




## Cam 5a (Awtomatig): Archebu Apwyntiadau

Os dewisoch y modd archebu awtomatig, fel welwch apwyntiadau dros-dro a ddelir am 2 funud. I'w cadw, dewiswch *Accept* ar y chwith isaf.

Os nad oedd yn bosibl i archebu pob athro a ddewiswyd yn ystod yr amseroedd y gallwch fynychu, gallwch naill ai newid yr athrawon yr ydych yn dymuno cyfarfod â nhw a rhoi cynnig arall, neu newid i'r modd archebu â llaw (Cam 5b)




## Cam 5b (Â Llaw): Archebu Apwyntiadau

Cliciwch unrhyw rai o'r celloedd gwyrdd i wneud apwyntiad. Mae celloedd glas yn dynodi lle lle mae gennych apwyntiad yn barod. Mae celloedd llwyd yn dynodi nad yw'r amser ar gael.

I newid apwyntiad, dilëwch y gwreiddiol trwy hofran dros y blwch glas a chlicio *Delete*. Yna dewiswch amser arall.

Gallwch ddewis gadael neges i'r athro i ddweud beth yr hoffech ei drafod, neu godi unrhyw beth ymlaen llaw.

Pan fyddwch wedi gorffen archebu apwyntiadau, ar ben y dudalen yn y blwch *alert*, gwasgwch *click here* i ddod â'r broses archebu i ben..



## Cam 6: Gorffen

Mae eich holl archebion bellach yn ymddangos ar dudalen My Bookings. Anfonwyd cadarnhad trwy ebost a gallwch hefyd argraffu apwyntiadau trwy wasgu *Print*. Cliciwch *Subscribe to Calendar* i ychwanegu'r rhain ac unrhyw archebion yn y dyfodol i'ch calendr.

I newid eich apwyntiadau, cliciwch ar *Amend Bookings*.

# Protocol ar Gyfer Nosweithiau Rhieni Rhithiol

Gan fod nosweithiau rhieni rhithiol yn bethau newydd i ni roeddem o'r farn ei fod yn bwysig i sefydlu rhai rheolau sylfaenol fel bod yr holl gyfranogwyr yn dilyn yr un protocol a ddylai sicrhau lles pawb.

- Dylid cynnal sgyrsiau mewn ystafelloedd priodol e.e. y gegin, lolfa, stydi ac nid mewn ystafell wely
- Dylai'r holl gyfranogwyr wisgo'n briodol fel y byddent ar gyfer cyfarfod wyneb yn wyneb bywyd go iawn
- Ni ddylid recordio unrhyw sgyrsiau
- Os ydych chi'n defnyddio dyfais gyda, er enghraifft, FaceTime neu WhatsApp i alluogi dau riant o wahanol aelwydydd i fynychu ar yr un pryd, os gwelwch yn dda rhowch wybod i'r athro fel mater o gwrteisi ar ddechrau'r sgwrs
- Mae gan athrawon a rhieni ddewis i ddefnyddio sain neu fideo
- Fel mewn bywyd go iawn, mae croeso i'ch mab/merch fynychu
- Os gwelwch yn dda ceisiwch fod yn brydlon gan nad yw'r amseroedd yn hyblyg o gwbl a byddant yn dechrau/gorffen ar yr union amser a drefnwyd
- Mae 30 eiliad cyntaf bob sgwrs yn caniatáu seibiant byr i'r athro a fydd yn cychwyn y sgwrs ar ryw bwynt pan fydd yn barod yn ystod y cyfnod hwn
- Mae Ysgol Aberconwy yn cael ei chanmol yn aml am ei pherthnasoedd cadarnhaol, adeiladol rhwng staff a rhieni ac mae'n bwysig bod hyn yn parhau. Felly nodwch, os gwelwch yn dda, pe gyfyd achos o gam-drin geiriol, er mor annhebygol yw hynny, y bydd staff yn dod â'r sgwrs i ben ac yn cyfeirio'r mater at yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth.